

# Sbwriel Twristiaeth

## Heriau ac Atebion

2023

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Crynodeb Gweithredol

Mae twristiaeth yn chwarae rhan enfawr yn economi Cymru, gan greu £6.2 biliwn mewn gwariant ymwelwyr bob blwyddyn, er nad yw hyn heb ei heriau, yn arbennig o ran rheoli gwastraff a sbwriel. Mae twristiaeth yn gyffredinol yn golygu mwy o sbwriel cyffredinol, sbwriel cyfarpar, gwersylla anghyfreithlon, tipio anghyfreithlon mewn llety gwyliau a chamddefnyddio biniau cyhoeddus. Mae ffenomen sbwriel yn ymwneud â thwristiaeth wedi cael ei hastudio'n helaeth trwy ddulliau amrywiol yn cynnwys arolygon amgyffrediad, cydberthynas rhwng y niferoedd sy'n ymweld â thraethau neu fewnlifiad twristiaid tymhorol â lefelau sbwriel, a chysylltiad rhwng ymwelwyr traethau â mathau penodol o sbwriel fel bwyd wrth fynd a phecynnau diodydd. Mae'r materion hyn wedi cael eu gwaethygu gan bandemig Coronafeirws wrth i dwristiaeth ddomestig gynyddu wrth i gyfyngiadau ar deithio rhyngwladol gael eu gosod, gan greu crynodiadau digynsail o ymwelwyr mewn cyrchfannau mwy gwledig a chynnydd cysylltiedig yn y defnydd o fwyd a diod wrth fynd.

Gelwir yr astudiaeth o ymddygiad ymwelwyr yn 'seicoleg gwyliau' oherwydd gwahaniaethau amlwg i astudiaethau o ymddygiad yn y cartref neu mewn sefyllfa waith. Yr egwyddorion sydd yn dylanwadu fwyaf ar ymddygiad twristiaid yw'r amgyffrediad o reolaeth dros ymddygiad (rhwyddineb gweithred), normau cymdeithasol a phersonol, cymhellion, ac effaith 'gorlifiad' (atgynhyrchu ymddygiad o leoliadau eraill fel y gwaith neu'r cartref). Mae'r amgyffrediad o reolaeth dros ymddygiad ar ei isaf ar wyliau (mae gweithredoedd yn ymddangos yn fwy trafferthus) gan fod y ffocws ar ddyheadau mwy 'hedonaidd' nag ar gyfrifoldebau. Felly, mae'r defnydd o eitemau rhad, o ansawdd gwael, fel cyfarpar neu ddeunydd pacio nad yw'n cael ei brynu gartref yn cynyddu, sydd yn gwaethygu problemau gwastraff mewn cyrchfannau ymwelwyr. Yn y sefyllfa hon, mae ffenomen 'rhyddid moesol' yn caniatáu i bobl weithredu mewn ffyrdd sydd yn llai ymwybodol o'r amgylchedd nag arfer wrth iddynt gyfiawnhau penderfyniadau llai cyfrifol yn amgylcheddol ar wyliau gydag ymddygiad sydd yn dda i'r amgylchedd gartref.

Mae llawer o gyfleoedd i fynd i'r afael â'r materion hyn ar lefel Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Parciau Cenedlaethol a Busnes neu Ddiwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys technegau sydd wedi eu rhoi ar brawf mewn mannau eraill fel cyflwyno ardoll ymwelwyr a allai cefnogi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae tystiolaeth o gyrchfannau eraill ag ardoll ymwelwyr yn awgrymu mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trwy ddulliau tryloyw iawn lle mae cyllid yn cael ei glustnodi'n glir ar gyfer yr amgylchedd ac at ddibenion adfywio. Gallai tâl o bunt y person yn unig fesul noson greu hyd at £41 miliwn mewn refeniw ar gyfer Cymru gyfan. Mae technegau marchnata sydd wedi bod yn effeithiol mewn cyrchfannau Ewropeaidd yn cynnwys hysbysebu codau ymddygiad gweladwy mewn Parciau Cenedlaethol, a hyrwyddo negeseuon yn pwysleisio dynodiadau natur ardaloedd a pholisïau parthau. Gall y rhain helpu i gyfleu nad yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dderbyniol ac arddangos ymddygiad cyfrifol i ymwelwyr newydd nad ydynt wedi arfer ymweld â'r ardaloedd hyn o harddwch naturiol. Ynghyd ag ymdrechion presennol, anogir Llywodraeth Cymru i fynd ar drywydd cymhellion ar gyfer lleihau deunydd pacio ar gyfer busnesau a chwsmeriaid, gostyngiadau treth neu ardollau deunydd pacio. Gall hyn hwyluso'r pontio i normaleiddio deunydd pacio cynaliadwy hyd yn oed pan mae'n ddrutach na deunydd cyfatebol anghynaliadwy. Gall cynyddu'r gallu gwersylla wedi ei reoli'n gyfrifol trwy 'aires' (lle gall cerbydau gwersylla aros i ddefnyddio'r cyfleusterau mwyaf sylfaenol fel gwaredu gwastraff (sbwriel a gwastraff corfforol a dŵr ffres) a gwersylloedd dros dro, helpu i ymateb i'r cynnydd aruthrol mewn gwersylla anghyfreithlon a welwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae Cyngor Gwynedd yn fwriadu treialu 'aires' yn 2023. Nodir y gallai'r twf yma mewn gwersylla anghyfreithlon leihau'n naturiol wrth i'r gallu i hedfan yn rhyngwladol wella yn dilyn cyfnodau clo. Dylid archwilio ansicrwydd ynghylch llety gwyliau hefyd a mwy o reoleiddio a monitro o ran gwastraff am nad yw'r canllawiau presennol yn datgan pwy sy'n gyfrifol am waredu gwastraff yn gywir (e.e gwesteion neu'r pobl sy'n croesawu), a galluogi busnesau bach i gael eu heithrio o fod angen trefniadau gwastraff masnachol. Gellid rhoi cyfleoedd ar raddfa lai ar brawf a'u hymestyn os byddant yn llwyddiannus, fel gwaharddiadau gwirfoddol ar smygu neu eitemau plastig, cynlluniau Mabwysiadu traeth / Gofal Arfordir a seilwaith biniau ar gyfer ailgylchu gwastraff cyfarpar neu fenthyca eitemau. Bydd angen gwybodaeth arbenigol ar rai o'r argymhellion hyn i bennu sut byddant yn gweithio yng nghyd-destun Cymru neu'n lleol a'r ffordd orau o'u gweithredu, felly mae'n hanfodol gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid twristiaeth.

Cyflwynodd bandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau teithio o ganlyniad heriau cynyddol o ran rheoli cyrchfannau ac ymwelwyr wrth i niferoedd digynsail a chynulleidfa 'newydd' o ymwelwyr gymryd gwyliau domestig. Anaml y mae rheoli sbwriel a gwastraff yn brif nodwedd i bolisi twristiaeth genedlaethol, ond eto mae'n cael blaenoriaeth gynyddol, yn arbennig mewn cynlluniau lleol a rhanbarthol. Mae sbwriel a gwastraff yn cael effaith ddeublyg, nid yn unig yn rhoi straen ar yr awdurdod sy'n rheoli i ddelio ag ef (gan ddefnyddio adnoddau o rywle arall yn aml) ond mae hefyd yn cael effaith sylweddol ar amgyffrediad ymwelwyr o ardal (a'u tebygolrwydd o ailymweld). Awgrymir y dylid rhoi mwy o sylw ac adnoddau i reoli sbwriel a gwastraff gan gynnwys ystyried pwysau tymhorol am ei fod yn cael ei weld fel un o'r pethau mwyaf annatod mewn rheolaeth ymwelwyr y mae llawer o Gynghorau a Chyrff Dyletswydd eraill yn cael anhawster gydag ef. Mae rheoli gwastraff yn nodwedd mewn llawer o gynlluniau lleol a rhanbarthol ond dydi ddim wedi'i gydnabod mewn unrhyw strategaethau cenedlaethol gan y sector neu'r Llywodraeth.

Yn y cyfamser, er bod busnesau twristiaeth yn arwain y ffordd o ran lleihau plastig a gwastraff trwy fentrau gwirfoddol fel **Menter Plastigau Twristiaeth Byd-eang** a **Goriad Gwyrdd**, mae'r cynlluniau hyn heb ymestyn i'r sectorau 'llety preifat' eto, sydd yn ffurfio canran sylweddol o'r llety sydd ar gael yng Nghymru ac yn gyfle coll i ymgysylltu ymwelwyr. [1]

## Prif bwyntiau

- Mae cydberthynas rhwng nifer yr ymwelwyr a materion rheoli sbwriel a gwastraff sydd yn rhoi straen ar adnoddau lleol a chyflwyno gwasanaethau.
- Gall ymwelwyr fod yn anghyfarwydd ag arferion gwastraff yr ardal y maent yn ymweld â hi, diffyg 'cysylltiad' â'r ardal neu efallai eu bod yn cael eu sbarduno gan ffactorau 'seicoleg gwyliau' a allai arwain at ymddygiad llai cyfrifol o ran gwastraff.
- Mae'r ymchwil yma'n dangos bod angen ymyriadau, negeseuon a chodi ymwybyddiaeth wedi ei dargedu'n benodol ar gyfer ymwelwyr.
- Er bod rheoli sbwriel a gwastraff yn gyffredin mewn cynlluniau cynaliadwyedd twristiaeth leol, mae'n tueddu i beidio cael ei gydnabod trwy gynlluniau mwy rhanbarthol a chenedlaethol, er gwaethaf yr effaith sylweddol ar adnoddau a gwasanaethau.
- Er bod llawer o fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn mabwysiadu arferion a safonau mwy cyfrifol yn gynyddol, mae bwlch sylweddol yn y gofynion a'r mentrau yn y sector llety preifat.
- Mae nifer o bolisïau a mentrau y gellid eu hystyried i gynorthwyo cyrchfannau ymwelwyr i reoli'r materion hyn yn fwy effeithiol a cheir sawl enghraifft o arfer gorau.
- Byddai Ardoll Ymwelwyr – wedi ei glustnodi ar gyfer adnoddau a gwasanaethau amgylcheddol – yn rhan o ateb i sicrhau dyrannu mwy o adnoddau yn yr ardaloedd hynny sydd yn cael anhawster yn ymdopi â'r galw ond sydd hefyd yn dibynnu ar safonau amgylcheddol uchel i ddenu ailymweliadau.

[1] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-01/wales-accommodation-occupancy-survey-2019_0.pdf

- Mae uchelgeisiau'r Economi Gylchol yn rhan hanfodol o dwristiaeth gynaliadwy. Bydd mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio, yn ogystal â lleihau gwastraff yn gyffredinol trwy fusnesau a pholisïau lleol a chenedlaethol, yn cael effaith ar leihau'r broblem a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.
- Yn aml, mae cymunedau eisoes wedi ymgysylltu â materion twristiaeth a rheoli gwastraff lleol a gellir cynyddu eu gweithgareddau gyda chymorth Awdurdodau Lleol a Chyrff Anllywodraethol perthnasol.

# Argymhellion

Noder y gellir cyflawni rhai argymhellion yn unigol neu trwy bartneriaethau ar draws lefelau gwahanol ond maent wedi cael eu cyflwyno unwaith yn unig er eglurder y tabl.

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | **Sbwriel twristiaeth cyffredinol**<br>• Gall ardoll dwristiaeth helpu i ariannu rheoli gwastraff Awdurdod Lleol fel codi sbwriel, a darparu a chasglu biniau yn ogystal â chefnogi adfywio a gwelliant amgylcheddol.<br>• Mentrau busnes i leihau deunydd pacio nad yw'n fioddiraddadwy neu untro fel polystyren ymestynedig e.e bocsys sglodion a chwpanau coffi.<br>• Hybu'r defnydd o fasgiau wyneb amldro yn lle masgiau untro lle y bo'n bosibl. |
| | **Sbwriel cyfarpar a gwersylla anghyfreithlon**<br>• Gwaharddiadau ar gyfarpar rhad o ansawdd gwael. |
| | **Tipio anghyfreithlon a phreswylfeydd gwyliau**<br>• Pennu pwy sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol o waredu gwastraff yn gywir ar gyfer llety gwyliau – y gwesteion neu'r gwesteiwr. Dylai pob math o lety gwyliau ddod o dan reoliadau Gwastraff Busnes er eglurder ac atebolrwydd.<br>• Targedu safleoedd archebu llety gwyliau fel AirBnb er mwyn sefydlu canllawiau cyffredin ac egwyddorion rheoli gwastraff sydd yn sefydlu cyfrifoldebau'r gwesteiwr a'r ymwelwyr. |

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Leol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol** | **Sbwriel twristiaeth cyffredinol**<br>• Gellid gweithredu gwaharddiad smygu gwirfoddol ar draethau sydd yn broblem mewn rhai ardaloedd ond dylid cynnal asesiad effaith.<br>• Marchnata priodol ar gyfer yr ardal naill ai trwy ddi-farchnata, arwyddion ardaloedd cadwraeth natur neu bwysleisio codau ymddygiad mewn Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd poblogaidd eraill.<br>• Annog cynllun Mabwysiadu traeth / Gofalu am Arfordir ar gyfer traethau amwynder, neu draethau nad ydynt yn cael eu glanhau'n rheolaidd gan yr Awdurdod Lleol.<br>• Pwysleisio lle y bo'n bosibl gwerth ardal o ran cadwraeth natur a'r cod ymddygiad trwy sianeli gwybodaeth niferus, yn arbennig mewn Parciau Cenedlaethol a chyrchfannau tir eithriadol eraill.<br>• Canolbwyntio ar gadw ymwelwyr sy'n dychwelyd dro ar ôl tro a allai ddatblygu hoffter at le yn haws nag ymwelwyr untro. |
| | **Sbwriel cyfarpar a gwersylla anghyfreithlon**<br>• Rhoi aires a gwersyllfeydd dros dro ar brawf mewn ardaloedd sydd yn ceisio denu mwy o ymwelwyr, er mwyn lledaenu buddion ariannol a lleihau gorboblogi mewn ardaloedd poblogaidd.<br>• Bocs cyfarpar wedi torri er mwyn casglu cyfarpar wedi torri i'w ailgylchu.<br>• Rhoi cynlluniau dynodi parthau yn anffurfiol neu'n orfodol ar brawf i atal rhai gweithgareddau rhag digwydd mewn ardaloedd sensitif o ran natur, tra'n caniatáu lle ar gyfer hyn mewn ardaloedd llai sensitif.<br>• 'Llyfrgell teganau traeth' lle gellir rhoi cyfarpar i'w ailddefnyddio, yn cynnwys bwcedi, rhawiau, rhwydi, parasolau, corff-fyrddau, polion cerdded, ponsios sy'n dal dŵr ac ati. |
| | **Fly-tipping and holiday residences**<br>• Anfon deunyddiau addysgiadol ar ddyletswyddau rheoli gwastraff i'r cwmni croesawu neu reoli naill ai pan fyddant yn symud o gyfraddau treth domestig i fusnes, neu pan fydd llety gwyliau yn cael ei roi mewn dosbarth newid defnydd (wrth aros am ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru).<br>• Dylai archwiliadau biniau Awdurdodau Lleol fapio llety gwyliau a dylent ddyrannu darpariaeth biniau a negeseuon yn unol â hynny.<br>• Ymchwilio i'r defnydd o ddyluniad seilwaith biniau fel rhwystr i ddefnyddio biniau cyhoeddus ar gyfer gwastraff domestig llety gwyliau. |

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Leol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol** | • Hybu rhwyddineb PEB trwy gyfeirio'n ôl at ymddygiad pobl gartref yn ymwneud â rheoli ailgylchu a gwastraff. |
| **Busnes a Diwydiant** | **Sbwriel twristiaeth cyffredinol**<br>• Mentrau cyhoeddus i gyflwyno cynwysyddion / poteli amldro trwy gymhwyso ardollau ariannol neu gynlluniau dychwelyd ernes lleol.<br>• Annog ymgymeriad rhaglen Ardaloedd Di-sbwriel gan fusnesau, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o ymwelwyr a chyrchfannau ymwelwyr.<br>• Cynlluniau llogi cyfarpar traeth i leihau prynu cyfarpar rhad o ansawdd gwael.<br>• Ymestyn Gorsafoedd Ail-lenwi ymhellach i ardaloedd poblogaidd i dwristiaid i leihau'r defnydd o boteli plastig. |

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13